



Ionawr 29<sup>ain</sup> 2021

Annwyl Riant/Ofalwr,

Yn ddiau, byddwch wedi clywed neu ddarllen cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ynghylch ailagor yr ysgolion yn ystod y tymor hwn. Yn fyr, mae'n ymddangos, tra bod y Llywodraeth yn parhau i fonitro cyfraddau heintiad Covid19 yn ofalus, ni fyddwn yn ailagor yr ysgol i blant cyn hanner tymor, ac mae'n ymddangos yn hynod annhebygol y byddwn yn agor ein drysau yn syth ar ôl hanner tymor chwaith.

Fel y gwyddoch, rydym yn gweithio'n galed i ddarparu gwersi trwy 'TEAMS' ar gyfer eich plant, gan gynnig dull cyfunol o 'ddysgu byw', cefnogaeth ar-lein, ymchwil annibynnol ac astudio dan arweiniad. Rydym hefyd yn parhau i gynnig cefnogaeth ar y safle i rai o'n myfyrwyr mwy agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol, ac rydym yn cadw mewn cysylltiad â llawer ohonoch, trwy amryw o ddulliau, i helpu lle bynnag y gallwn. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r rhai ohonoch sydd wedi cynnig adborth ar ein dull o weithredu, ac am y llu o negeseuon o gefnogaeth a diolch yr ydym wedi eu derbyn. Er fy mod yn sylweddoli bod yr amgylchiadau presennol yn llai na delfrydol, rwy'n gobeithio eich bod yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i helpu'ch plant gyda'u dysgu ar yr adeg hon.

Yn ddiau, byddwch wedi gweld y dudalen 'Dysgu o Bell' ar ein gwefan sy'n cynnig rhai syniadau ar ddysgu gartref, yn ogystal ag unrhyw ddiweddiadau i sefyllfa'r arholiadau neu sut i gael gafael ar gefnogaeth gyda dyfeisiau neu fynediad i wifi estynedig. Rydym yn ceisio diweddarau hyn gyda datganiadau newydd, a byddwn yn eich cyngori i gymryd golwg o bryd i'w gilydd gan fod pethau'n newid.

<https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/learning/remote-learning>

Un peth mae llawer ohonoch wedi tynnu sylw ato yw'r anhawster y mae rhai plant yn ei brofi o dreulio cyfnodau hir wrth gliniadur, yn gweithio o flaen sgrîn. Felly, gan gofio bod cyhoeddiadau diweddar yn awgrymu ein bod yn debygol o fod yn cyflwyno gwersi fel hyn am gryn amser, rydym am gyflwyno sesiwn llesiant yn wythnosol yn lle gwers, ac rydym yn annog pawb i ddiffodd eu sgrinau a gwneud rhywbeth gwbl wahanol yn lle! Byddwn yn dechrau'r rhain wythnos nesaf, ar brynhawn Dydd Iau, a byddant yn cylchdroi o gwmpas yr wythnos i osgoi effeithio ar yr un wers bob tro – byddwn yn rhoi gwybod i chi bob wythnos pryd y bydd y sesiwn hon yn digwydd fel y gallwch baratoi yn unol â hynny. Byddwn hefyd yn cynnig rhai awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau i'ch plant, trwy'r 'TEAMS' bugeiliol a gobeithiwn y byddwch yn gallu treulio amser yn rhannu'r profiadau hyn gyda nhw.

Gobeithio y bydd hyn yn ychwanegu rhywfaint o amrywiaeth at wythnos y myfyrwyr ac yn werthfawr iddynt o ran cynnal agwedd iach a chytbwys tuag at fywyd yn ogystal â'u haddysg ar yr adeg anodd hon.

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch am unrhyw ran o'r gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd, neu os oes angen cefnogaeth arnoch mewn unrhyw ffordd, mae croeso i chi gysylltu. Yn y cyfamser, edrychwch ar ôl eich hun a'ch teuluoedd, a chadwch yn ddiogel.

Yn gywir iawn,

Ian Gerrard  
Pennaeth.

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE  
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243  
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK  
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

BUDDSODDWR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

